

Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg

01 Gorffennaf 2019

Annwyl Kirsty

Hoffwn ddiolch i'ch swyddogion am ddarparu sesiwn frifio ar Gwricwlwm drafft Cymru 2022 ar ddiwrnod ei gyhoeddi. Dywedodd yr Aelodau fod y sesiwn yn hynod fuddiol.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor yn bwriadu parhau i fonitro'r cynnydd a wneir wrth ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Felly, hoffem eich gwahodd i drafod y sefyllfa ddiweddaraf yng nghyfarfod y Pwyllgor ar **18 Medi 2019, rhwng 09:30 a 11:00**.

Byddai'n ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor pe gallech ddarparu papur ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Yn benodol, byddem yn gwerthfawrogi pe gallech anfon y wybodaeth ddiweddaraf am y materion a ganlyn:

- Yr ymarfer adborth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng 30 Ebrill a 19 Gorffennaf 2019, a rhagflas o'r negeseuon allweddol sydd wedi dod i'r amlwg, gan gynnwys pa faterion yn ymwneud â'r meysydd dysgu a phrofiad, a pha elfennau o'r meysydd hyn, sydd wedi ysgogi'r nifer fwyaf o sylwadau;
- Syniad o sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r ymarfer adborth, a gwybodaeth am y camau nesaf a fydd yn arwain at gwblhau Cwricwlwm Cymru cyn y caiff ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020;
- Y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, amlinelliad o'r camau nesaf, a'r cynlluniau ar gyfer llunio Bil Cwricwlwm ac Asesu;
- Crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y cynigion asesu a'r trefniadau atebolrwydd a fydd yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd;




- Amlinelliad o'r prif oblygiadau i'r chweched dosbarth a'r sector addysg bellach yn deillio o'r Cwricwlwm newydd i Gymru, a'r modd y bydd y chweched dosbarth a'r sector addysg bellach yn cyfrannu at y broses hon;
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu'n effeithiol, gan gynnwys parodrwydd ysgolion, dysgu proffesiynol ymhlith athrawon ac alinio'r cwricwlwm â chymwysterau.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth hon atom erbyn **dydd Iau 5 Medi 2019**.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi ar yr agenda bwysig hon.

Yn gywir



Lynne Neagle AC / AM
Cadeirydd / Chair

